Ministry of Justice

# Cylchlythyr Rhif 2022/02

| | |
|---|---|
| **TEITL** | YR HEDDLU, TROSEDD DEDFRYDU A LLYSOEDD 2022 ADRAN 50 - DIFROD TROSEDDOL I GOFEBION A DIWYGIADAU ERAILL I DROSEDDAU |
| **Gan:** | Uned Polisi'r Gyfraith Droseddol |
| **Dyddiad cyflwyno:** | 28 Mehefin 2022 |
| **Dyddiad gweithredu:** | 28 Mehefin 2022 |
| **I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:** | Eleanor Nicholls (Eleanor.Nicholls@justice.gov.uk)<br>Rhif ffôn: **07779 566673** |
| **Pwnc Eang** | Cyfiawnder Troseddol |
| **Is-gategori** | Difrod Troseddol i Gofebion |

**Mae’r cylchlythyr hwn ar gyfer**

Yr Arglwydd Brif Ustus, Ustusiaid y Goruchaf Lys, Llywydd Is-adran Mainc y Frenhines, Meistr y Rholiau, Uwch-farnwr Llywyddol, Arglwydd Ustus Apêl, Barnwyr yr Uchel Lys, Llywydd yr Is-adran Teuluoedd, Canghellor yr Uchel Lys, Barnwyr Cylchdaith, Dirprwy Farnwyr Cylchdaith, Cofnodwyr, Barnwyr Llys y Goron, Barnwyr Ardal (Llysoedd Ynadon), Cadeiryddion Meinciau, Clercod y Barnwyr, Prif Swyddogion yr Heddlu, Prif Erlynwyr y Goron.

Y Coleg Barnwrol, Y Cyngor Dedfrydu, Cyngor y Barnwyr Cylchdaith, Cymdeithas yr Ynadon, Cymdeithas Clercod y Barnwyr, Cofrestrydd Apeliadau Troseddol, Cyfarwyddwyr Cyflawni GLlThEM, Rheolwyr Llysoedd y Goron, Cyngor Penaethiaid yr Heddlu Cenedlaethol, Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar, Cymdeithas y Bar Troseddol.

**Pwrpas y Cylchlythyr**

1. Pwrpas y cylchlythyr hwn yw rhoi gwybod i dderbynyddion am ddarpariaeth newydd ar gyfer difrod troseddol i gofebion yn Neddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd 2022 (“Deddf PCSC”). Mae’r ddarpariaeth newydd, adran 50 o Ddeddf PCSC, yn diwygio adran 22 a pharagraff 1 o Atodlen 2 Deddf Llysoedd Ynadon 1980 (“Deddf 1980”). Daw’r ddarpariaeth i rym ar 28 Mehefin 2022, a bydd yn berthnasol i droseddau a gyflawnir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Cefndir**

2. Bu i brotestiadau yn ystod haf 2020 arwain at bobl yn targedu cerfluniau, gan gynnwys cofebion rhyfel a strwythurau coffa eraill o arwyddocâd diwylliannol, a wnaeth beri pryder mawr yn gyhoeddus. Ar 7 Mehefin 2020, yn ystod protestiadau gwrth-hiliaeth, cafodd cofeb ryfel y Senotaff yn Whitehall ei gorchuddio gan graffiti, a cheisiodd un o’r protestwyr roi fflag Jac yr Undeb ar y gofeb ar dân. Hefyd, paentiwyd y geiriau ‘was a racist’ ar gerflun Syr Winston Churchill yn San Steffan, dan enw’r cyn-Brif Weinidog. Cafodd ei enw ei groesi allan hefyd.

3. Bu i’r ymosodiadau hyn ennyn diddordeb mawr yn y pwnc yn hy’r Cyffredin. Ers tro, credwyd nad yw’r gyfraith yn ddigon cadarn yn y maes hwn, oherwydd er nad yw achosion o niweidio a difrodi cerfluniau a chofebion rhyfel yn cael effaith ariannol fawr, yn aml mae effaith sentimental ac emosiynol sylweddol. Dengys data hanesyddol o Ymddiriedolaeth y Cofebion Rhyfel fod 12 o gofebion rhyfel ar gyfartaledd wedi’u fandaleiddio bob blwyddyn rhwng 2007 a 2017.

4. Ar 23 Mehefin 2020, gofynnodd ASau i’r Llywodraeth gefnogi Bil Difrodi Cofebion Rhyfel newydd, oedd â’r nod o gyflwyno trosedd newydd a phenodol os bydd unigolyn yn niweidio, dinistrio neu ddifrodi cofeb ryfel fel arall. Mynegodd yr ASau bryder ynghylch y ffaith mai tri mis yn y carchar yw’r uchafswm o ran dedfryd os yw’r difrod i gofeb ryfel yn costio hyd at £5,000. Mae hyn oherwydd darpariaeth yn y Ddeddf 1980 sy’n nodi y dylai achosion o’r fath ond symud ymlaen os oes modd eu profi yn ddiannod; dywed yr ASau nad yw hyn yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd, na’r pryder a achosir i’r cyhoedd yn gyffredinol.

5. O ganlyniad, penderfynodd y Llywodraeth gyflwyno diwygiad i Ddeddf 1980 yn rhan o'r Bil PCSC. Nid yw'r ddarpariaeth newydd yn creu trosedd newydd, ond yn hytrach mae'n diwygio Deddf 1980, drwy newid y darpariaethau sy'n llywodraethu'r dull o ran profi'r drosedd o ddifrod troseddol, yn groes i adran Deddf Difrod Troseddol 1971 ("Deddf 1971"), pan fydd cofeb yn cael ei niweidio. Ar hyn o bryd, mae Deddf 1980 yn datgan os yw hi'n amlwg i'r llys fod y difrod troseddol (heblaw am ddifrod troseddol gan dân) gwerth llai na £5,000, rhaid i'r llys fynd ati fel mai dim ond llys ynadon a fydd yn mynd i'r afael â'r drosedd; hynny yw, mae'n rhaid ei gyflwyno i'r llys ynadon. Yn nhermau ymarferol, mae hyn yn golygu mai'r uchafswm gosb yw 3 mis yn y carchar, neu ddirwy o £2,500. Mae Adran 50 o Ddeddf PCSC yn diwygio Atodlen 2 i eithrio difrod troseddol i gofebion o'r rheol honno, gan felly ddirymu'r ystyriaeth o werth ariannol wrth ddelio â difrod troseddol i gofebion rhyfel a sicrhau bod hyd yn oed honiadau 'gwerth isel' yn cael eu cyflwyno i Lys y Goron, sy'n golygu y bydd yr ystod lawn o bwerau dedfrydu ar gael.

6. Pan fydd y newidiadau a gyflawnir gan adran 50 o Ddeddf PCSC yn dod i rym, bydd hyn yn sicrhau bod llysoedd yn gallu dedfrydu'n briodol ar bob lefel os bydd cofebion yn cael eu dinistrio neu eu difrodi, oherwydd ni fydd y cyfyngiadau i'r dull prawf sy'n rhan o Ddeddf 1980 yn berthnasol.

**Crynodeb o'r ddarpariaeth newydd ar gyfer difrod troseddol i gofebau**

7. Mae Adran 50 o Ddeddf PCSC yn diwygio adran 22 a pharagraff 1 o Atodlen 2 o Ddeddf 1980 er mwyn sicrhau bod modd clywed yr achos yn un ai'r llys ynadon neu Lys y Goron os achosir difrod troseddol i gofeb, fel bod modd i'r llysoedd ddedfrydu'n briodol a chyflwyno cosbau sy'n adlewyrchu'r gwir lefel o ddifrod ac atebolrwydd, gan felly fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch terfynau presennol y dull prawf a dedfrydu.

8. Mae isadran (1) yn diwygio paragraff 1 o Atodlen 2 o Ddeddf 1980 fel y bydd trosedd dan adran 1 o Ddeddf 1971 a gyflawnir trwy ddifrodi neu ddinistrio cofeb ("trosedd i gofeb") ddim yn drosedd restredig at ddibenion adrannau 22 a 33 o Ddeddf 1980.

9. Mae isadran (2) yn mewnosod yr isadrannau newydd (11A), (11B), (11C) a (11D) i adran 22 o Ddeddf 1980 sy'n diffinio "cofeb" i gynnwys adeiladau, strwythurau eraill, gwrthrychau y gellid eu symud, gerddi neu bethau eraill sydd wedi'u plannu, eu tyfu, eu codi, eu gosod neu eu rhoi ar dir, pan fo'r gwrthrych dan sylw at ddibenion coffa unigolyn/unigolion, anifail/anifeiliaid neu ddigwyddiad(au).

10. Mae isadran (3) yn darparu nad yw'r diwygiadau'n berthnasol i droseddau a gyflawnwyd cyn iddo ddod i rym.

11. Bydd dinistrio neu niweidio cofebion yn dal i gynnwys gweithrediadau difrodi, fel yr oedd y gyfraith cyn diwygio adran 22 a pharagraff 1 o Atodlen 2 o Ddeddf 1980. Bydd y llys yn pennu a yw cofeb wedi cael ei

dinistrio neu ei niweidio mewn gwirionedd.

12. Bydd Adran 50 yn berthnasol i droseddau a gyflawnir ar neu ar ôl y dyddiad dod i rym, sef 28 Mehefin 2022, dau fis o'r dyddiad y cafodd Deddf PCSC Gydsyniad Brenhinol ar 28 Ebrill 2022.

13. Bydd Adran 50 o Ddeddf PCSC yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig.

**Newidiadau i droseddau eraill dan Ddeddf PCSC**

14. Mae Deddf PCSC yn cynnwys sawl darpariaeth sy'n diwygio troseddau eraill, neu'n creu rhai newydd, neu ddiwygiadau gweithredfnol. Gweler rhai isod:

    1. Dedfryd am oes mandadol ar gyfer dynladdiad gweithwyr brys (gelwir hyn yn "gyfraith Harper") (adran 3)
    2. Swyddi ag ymddiriedaeth (adran 47)
    3. Voyeuriaeth bwydo ar y fron (adran 48)
    4. Cosbau ar gyfer troseddau creulondeb i blant (adrannau 122 ac 123)
    5. Terfyn amser ar gyfer dedfrydu ymosodiad cyffredin neu gurfa mewn achosion cam-drin domestig (adran 49)

Gallwch weld y wybodaeth am y darpariaethau hyn yn y cylchlythyr ar gyfer Deddf PCSC, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, drwy glicio'r ddolen ganlynol:
[Circular 005/2022: Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)]

**Dolenni defnyddiol:**

- Deddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a Llysoedd 2022 - gweler <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2022/32/section/1/enacted>
- Deddf Llysoedd Ynadon 1980 – gweler https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1980/43/contents
- Deddf Difrod Troseddol 1971 – gweler https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1971/48/contents